# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bronwydd

**Neuadd Y Pentre**
**Bronwydd Arms**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA33 6BD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bronwydd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bronwydd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Rebecca Ann Dufty |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Verona Clift |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 9:15-12:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Awst 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/06/2024 |
| Mae'r lleoliad wedi ei leoli mewn neuadd bentref gymunedol.<br><br>Mae llawer o blant yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio’n fwriadus ar gyfer datblygu medrau’r plant

A2 Manteisio ar bob cyfle i herio ac ymestyn geirfa’r plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau'r amgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r adnoddau ac ardaloedd sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn rhyngweithio'n dda iawn â'u cyfoedion a gyda'r ymarferwyr. Maent yn gyfeillgar a charedig iawn gyda'i gilydd.

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n syth ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Dangosa bron pob plentyn hoffter tuag at yr ymarferwyr, gan fynd atynt yn hapus wrth adael eu rhieni neu ofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn â phlant eraill. Er enghraifft, maent yn rhannu tryciau a thractorau yn hwylus wrth chwarae gyda'r twba tywod. Mae'r plant yn arddangos balchder yn eu gwaith, er enghraifft wrth wneud hufen iâ mefus a mintys gwyrdd gyda'r clai.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn symud o un ardal i'r llall yn hyderus gan ddewis gweithgareddau sy'n eu diddori. Maent yn mwynhau chwarae gyda theganau symudol yn yr ardal allanol. Mae mwyafrif y plant yn rhannu eu syniadau am yr hyn sy'n eu diddori gyda'r gwahanol themâu, er enghraifft wrth ganolbwyntio ar y tywydd, neu wrth ddysgu am wahanol fwydydd. Mae bron pob plentyn yn hunangofrestru'n gywir gan roi llun o'u gwyneb ar y bwrdd wrth ddod i mewn i'r cylch yn y bore. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus. Maent yn dewis byrbryd iachus a diod, ac yn dewis lle i eistedd. Mae mwyafrif y plant yn dangos medrau gwrando da. Maent yn ymateb yn dda iawn i ymarferwyr sy'n rhoi cyfarwyddyd iddynt i ddilyn y bws cerdded o'r ardal tu fewn i'r ardal allanol yn ofalus. Mae'r mwyafrif yn arddangos medrau gwrando a chyfathrebu da wrth ymateb i storïau sy'n cael eu darllen gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn ymateb yn hwylus i lyfrau am anifeiliaid a thractorau, ac yn rhannu eu profiadau personol am fywyd ar y fferm.

Wrth chwarae, mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio am amser cynyddol, ac yn frwdfrydig iawn wrth greu traciau a symud tywod gan ddefnyddio offer a chyfarpar gwahanol. Maent yn rhyngweithio'n arbennig o dda gyda phlant eraill, gan rannu a chymryd tro. Er enghraifft, mae plant yn cydweithio'n frwdfrydig wrth gasglu afalau o'r goeden, tatws o'r ardd, eu golchi yn y dŵr a'u coginio yn y gegin fwd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol priodol. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau wrth chwarae rôl. Maent yn dewis cyfarpar ymarfer corff fel hwpiau, beiciau a pheli, a'u defnyddio'n llwyddiannus wrth chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach, rhoi eiddo ar y bachyn, a gwisgo a thynnu eu hesgidiau. Mae bron pob plentyn yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, gan olchi eu dwylo, rhoi menyn ar gracer ac arllwys eu diod eu hunain amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau ieithyddol cadarn. Maent yn adnabod eu henwau, enwi lliwiau a siapau syml, ac yn cyfri'n hyderus yn y Gymraeg.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda, yn parchu eu diddordebau a'u gofynion personol. Maent yn diwallu anghenion unigol y plant trwy gynllunio a darparu tasgau yn unol â'u diddordebau ac yn cyfathrebu â'r plant yn effeithiol, gan ddathlu eu llwyddiannau'n gyson. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd cyson i blant dderbyn cyfrifoldebau trwy gymryd rôl 'helpwr heddiw' ac yn eu hannog i ddod yn annibynnol trwy gasglu cwpanau a llestri yn ystod amser byrbryd. Mae'r ymarferwyr yn gadael i blant ddewis a dethol adnoddau yn annibynnol wrth chwarae yn yr adeilad neu yn yr ardal allanol.

Mae pob ymarferydd yn darparu cefnogaeth dda i blant. Maent yn dangos caredigrwydd a chynhesrwydd tuag atynt wrth iddynt gyrraedd yn y bore. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cyfarch y plant, a'u denu i fynd at deganau sy'n eu diddori. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol ac yn gyson a theg wrth reoli ymddygiad. Maent yn sicrhau bod y plant yn deall bod angen dwylo caredig wrth rannu teganau.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl cadarn. Maent yn annog plant i ddweud plîs a diolch amser byrbryd. Maent yn modelu moesau yn effeithiol, er enghraifft wrth ddweud diolch am yr hufen iâ tra'n chwarae rôl gyda'r plant yn y siop.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o anghenion plant sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn ymwybodol o drefniadau'r awdurdod lleol er mwyn trafod anghenion datblygiadol, gan gydweithio'n llwyddiannus er mwyn cefnogi'r plant.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan bob ymarferydd ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg dyddiol tu fewn a thu allan yn effeithiol, er mwyn diwallu gofynion iechyd a diogelwch y plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau trylwyr i sicrhau goruchwyliaeth ofalus o'r plant. Maent yn hyrwyddo arferion bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbrydau iachus a maethlon. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau a digwyddiadau, gan gynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn meddu ar berthynas hyfryd â'r plant, gan werthfawrogi cyfraniad pob plentyn. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys

sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio a darparu profiadau dysgu diddorol sy'n annog bwrlwm a diddordeb y plant, yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i chwarae am gyfnodau estynedig, gan ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Mae ymarferwyr yn cynnwys llais y plentyn yn eu cynllunio mewn modd effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant wedi mynegi eu diddordeb mewn peiriannau, ac mae ymarferwyr wedi darparu nifer o adnoddau addas, fel teganau, cylchgronau a llyfrau iddynt yn yr ardaloedd. Er hyn, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon fwriadus ar gyfer datblygu medrau'r plant yn gynyddol bob tro.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd dysgu buddiol ac yn paratoi adnoddau o ansawdd da sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ganddynt dwba canu â sachau yn llawn adnoddau deniadol i sbarduno'r plant i gofio geiriau caneuon a rhigymau cyfarwydd. O ganlyniad, mae medrau cyfathrebu'r plant yn datblygu'n dda.

Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau gwerthfawr yn gyson gan ganolbwyntio ar gynnydd plant. Gwneir defnydd effeithiol o arsylwadau ar y pryd ac, o ganlyniad, mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am anghenion unigol y plant.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gynllunio trwyadl. Mae ystod o brofiadau tu fewn a thu allan yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu'n ymarferol ac i fod yn greadigol, fel wrth adeiladu hufen iâ eu hunain yn y siop neu wrth ail-ddweud stori yn yr ardal allanol gan ddefnyddio'r adnoddau o'r sach stori. Mae ymarferwyr yn chwarae wrth ochr y plant mewn modd buddiol er mwyn cefnogi'r dysgu. Er enghraifft, maent yn casglu a chyfri afalau yn yr ardal allanol, cyn mynd ati i'w golchi a'u pwyso ar y clorian electronig yn y gegin fwd er mwyn annog y plant i'w hefelychu. Gwneir defnydd da o gyfnodau cymdeithasol er mwyn symud y dysgu ymlaen. Er enghraifft, mae helpwr y dydd yn estyn y llestri ac yn gosod y bwrdd ac mae'r plant yn arllwys diod, taenu menyn ac yn dewis eu byrbryd iach eu hunain yn ystod amser byrbryd.

Mae gan ymarferwyr ddulliau cadarn o sicrhau ymdeimlad o Gymreictod a balchder o berthyn i'r gymuned a Chymru. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i'r plant gyfrannu at gylchlythyr lleol yr ardal a thrwy ymuno â'r Ŵyl Feithrin. Maent yn darparu profiadau buddiol i blant ymateb yn greadigol i gerddoriaeth Gymraeg gyfoes ac i ddathlu traddodiadau Cymreig. Maent yn modelu iaith lafar yn glir, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cystrawennol addas wrth sgwrsio'n naturiol gyda'r plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n manteisio ar gyfleoedd i herio ac ymestyn geirfa'r plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i ganu gweddi i ddiolch am eu bwyd yn ystod amser byrbryd. Mae ymarferwyr yn addysgu'r plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd parchu eraill. Maent yn cefnogi'r plant yn effeithiol i fod yn garedig. Mae ymarferwyr yn cynllunio a pharatoi

adnoddau o ansawdd dda i annog chwilfrydedd y plant am fywydau a chredoau pobl eraill. Er enghraifft, maent yn darparu basged ddeniadol sy'n cynnwys llyfr ac adnoddau perthnasol i stori Eid.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar a diogel sy'n sbarduno chwarae'r plant yn effeithiol. Mae ardaloedd dysgu a chwarae yn ennyn diddordebau'r plant ac yn eu galluogi i ddarganfod ac archwilio yn bwrpasol. Mae arweinwyr yn sicrhau ardal allanol sy'n cynnig profiadau estynedig er mwyn datblygu medrau corfforol, chwarae dychmygus, archwilio a darganfod.

Lleolir y gwasanaeth mewn rhan o'r neuadd bentref. Tu fewn i'r adeilad, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu ymdeimlad cryf o berthyn ymysg y plant, drwy arddangosfeydd lliwgar sy'n gwerthfawrogi a dathlu eu gwaith crefft, ac yn arddangos ffotograffau ohonynt. Ceir dewis da o adnoddau sydd wedi'u gosod ar lefel briodol. Mae'r adnoddau yn sbarduno plant yn ôl eu diddordebau ac yn hybu medrau annibyniaeth y plant yn llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol. Mae modd iddynt ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar ddodrefn sy'n addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus tra bod plant yn defnyddio'r tŷ bach neu yn newid cewyn. Mae ardaloedd tawel ar gael i blant yn yr ardal tu fewn. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned ac o bwysigrwydd cydraddoldeb yn effeithiol. Darperir llyfrau, pypedau a doliau, yn ogystal â llyfrau ac adnoddau, sy'n helpu'r plant i ddysgu am amrywiaeth ac am bobl sydd ag anableddau. Mae ystod dda iawn o adnoddau ar gael i blant sydd wedi eu lleoli'n addas ac o fewn eu cyrraedd ar bob adeg.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod strwythurau arwain y lleoliad yn gadarn ac maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a hyrwyddo profiadau dysgu a lles y plant. Mae'r ethos cefnogol yn amlwg ac mae'r plant a'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn sicrhau bod trefniadau dyddiol yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau. Er enghraifft, mae arweinwyr yn sicrhau bod gan ymarferwyr gyfle i gynnig syniadau wrth gynllunio profiadau dysgu a chwarae ar gyfer y plant. Mae hyn yn cynnal lles a hyder ymarferwyr yn llwyddiannus ac mae ganddynt fwy o berchnogaeth dros eu gwaith. Mae perthynas weithio rymus rhwng yr arweinydd a'r ymarferwyr.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu cysylltiadau buddiol ag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae ganddynt gysylltiadau cadarn â'r athrawes ymgynghorol a'r mudiadau cefnogi. Maent yn creu cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned ehangach er mwyn cynnig ystod o brofiadau go iawn i'r plant, gan gynnwys ymweld â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol. Mae gweithdrefnau pontio gwerthchweil yn sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol a'r cam nesaf yn eu

dysgu. Er enghraifft, mae siwmperi'r ysgolion cyfagos wedi eu gosod yn y lolfa fel sbardun trafod ar gyfer gwaith thema.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae'r gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau'n briodol. Mae'r broses rheoli perfformiad wedi'i sefydlu'n bwrpasol, a cheir cofnodion cynhwysfawr gyda thargedau'r ymarferwyr wedi'u nodi'n glir.

Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn drylwyr. Gwneir defnydd da iawn o gyngor athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogi. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu o ran addysg a gofal y plant.

Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n ddoeth ac yn cyllido cyfarpar defnyddiol, yn unol â'r targedau gwella cyfredol. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardal allanol drwy fuddsoddi mewn adnoddau a phlanhigion er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth tu allan yn cynnig cyfleoedd ystyrlon â chyd-destun go iawn i blant ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae gan yr arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gryf â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw er mwyn medru gweithio'n effeithiol i wella lles a dysgu'r plant o ddydd i ddydd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd pwrpasol i hysbysu rhieni a gofalwyr o ddigwyddiadau a datblygiadau cyfredol perthnasol. Gwneir defnydd da o lyfrau unigol a llyfrau prosiect mawr i ddangos cynnydd unigolion yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae prif bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad wedi'u hysbysu'n glir i rieni a gofalwyr wrth y brif fynedfa.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 28 Awst 2024